

SL(5)671 – Rheoliadau Hylandid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol i is-ddeddfwriaeth, sy'n gymwys o ran Cymru, ym meysydd bwyd a diogelwch a hylandid bwyd a phorthiant, er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol/cydllynol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, er mwyn adlewyrchu'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon yn y cytundeb ymadael â'r UE.

Mae'r Rheoliadau hyn yn benodol yn diwygio'r offerynnau canlynol, sy'n offerynnau Cymru:

- Rheoliadau Cynhyrchion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau Hylandid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019;
- Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004;
- Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004;
- Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007;
- Rheoliadau Arbelydru Bwyd(Cymru) 2009;
- Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009;
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009;
- Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013;
- Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013;
- Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013;
- Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015; a
- Rheoliadau Caseinau a Chaseinau (Cymru) 2016.



Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ymgynghoriad cyhoeddus, cyffredinol ar y Rheoliadau hyn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac yn nodi, yn dilyn Ymadael â'r UE mai dyma fydd yr achos o hyd o ran yr holl ddiwygiadau i gyfraith Bwyd yn y dyfodol. At hynny, yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 11 Tachwedd 2020 (yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 – ynghylch yr angen i Ran 2 o'r offeryn hwn ddod i rym cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 7 Rhagfyr 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

